# Trefniadau Derbyn Ysgolion Sir y Fflint ar gyfer
# Blwyddyn Academaidd 2027/2028 – Dechrau ym mis Medi 2027

Os yw eich plentyn yn dechrau yn yr ysgol am y tro cyntaf, dylech ddewis pa fath o ysgol yr hoffech chi iddo gael ei addysgu ynddi. Mae'r dewis yn cynnwys:

- Addysg cyfrwng Saesneg (lle addysgir Cymraeg fel ail iaith)
- Addysg cyfrwng Cymraeg (addysg drwy gyfrwng y Gymraeg; bydd y plant yn dod yn ddwyieithog).
- Addysg enwadol (ysgolion ffydd gwirfoddol a gynorthwyir ac a reolir gan yr eglwys)

Mae gan Awdurdod Lleol Sir y Fflint un cyfnod derbyn ym mis Medi bob blwyddyn, a dylai eich plentyn gyrraedd yr oedran isod i fod yn gymwys:

| Cyfnod Presennol | Cyfnod Newydd | Oedran erbyn 31/08/27 |
|---|---|---|
| Amherthnasol | Meithrin<br>(Ar gyfer plant 3 a 4 oed) | 3 |
| Addysg Feithrin<br>(Ar gyfer plant 3 a 4 oed) | Derbyn/Cynradd | 4 |
| Cynradd | Uwchradd | 11 |

## Amserlen Derbyn Plant i'r Ysgol 2026/27 – Dechrau ym mis Medi 2027

| Cyfnod Mynediad | Bydd y ffurflenni derbyn ar gael i rieni ar - | Cyfnod i'r rhieni ystyried | *Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ffurflenni wedi'u llenwi* | Bydd yr ALI/Awdurdod Derbyn yn dyrannu lleoedd rhwng | Bydd y rhieni'n cael gwybod erbyn ("Dyddiad Cynnig") |
|---|---|---|---|---|---|
| **Uwchradd** | 01/09/26 | 01/09/26<br>31/10/26 | *31/10/26* | 01/11/26 –<br>04/01/27 | 01/03/27 |
| **Derbyn** | 21/09/26 | 21/09/26 -<br>15/01/27 | *15/01/27* | 16/01/27 –<br>23/02/27 | 16/04/27 |
| **Meithrin** | 04/01/27 | 04/01/27 –<br>15/02/27 | *15/02/27* | 16/02/27 –<br>22/03/27 | 05/05/27 |

**Rhaid** cyflwyno ffurflenni cais i'r Awdurdod Lleol erbyn y dyddiad cau. Mae'n bosib y bydd llai o gyfle i'ch plentyn gael ei dderbyn i'r ysgol o'ch dewis os byddwch yn cyflwyno eich ffurflen gais ar ôl y dyddiad hwn, gan y bydd eich cais yn cael ei ystyried fel un hwyr.  Mae rhagor o wybodaeth i'w gweld yn adran "Ceisiadau Hwyr" y ddogfen hon.

Os bydd cais hwyr yn cael ei gyflwyno **ar ôl** diwedd y cyfnod dyrannu, **ni** fydd yn cael ei brosesu tan ar ôl y "dyddiad cynnig".

Dylech gyflwyno apeliadau ar gyfer y cyfnod Uwchradd erbyn **dydd Sul 4 Ebrill 2027**, a dylech gyflwyno apeliadau ar gyfer y cyfnod Derbyn erbyn **dydd Sul 2 Mai 2027**.

## 1. <u>Sut i wneud cais</u>

### 1.1 Ysgolion Cymunedol, Ysgolion Ffydd ac Ysgolion Sefydledig

Rhaid gwneud trefniadau i alluogi rhieni i ddatgan i ba ysgol y hoffent i'w plentyn/plant fynd iddi. Yn ôl y gyfraith, mae plant rhieni sy'n datgan dewis yn cael blaenoriaeth dros y rhai nad ydynt wedi datgan dewis ar gyfer cael eu derbyn i'r ysgol honno.

Gallwch ddefnyddio ein gwasanaeth ar-lein i wneud eich cais yn unol â'r amserlen uchod ar wefan Cyngor Sir y Fflint, Derbyniadau Ysgolion. Dyma'r unig ffordd o wneud cais. Dylech ddefnyddio'r ffurflen hon os ydych chi'n byw yn Sir y Fflint ac eisiau datgan dewis am ysgol yn Sir y Fflint NEU ysgol mewn Awdurdod cyfagos y mae gennym ni gytundeb rhannu data â nhw.

**Rhaid i rieni wneud yn siŵr** eu bod yn cael neges gyflwyno dros e-bost sy'n cadarnhau bod eu cais wedi cael ei gyflwyno drwy'r porth ar-lein.

*Os byddwch chi wedi nodi y byddai'n well gennych chi ysgol WIRFODDOL A GYNORTHWYIR (Gatholig neu'r Eglwys yng Nghymru) neu ysgol SEFYDLEDIG yn Sir y Fflint, yn ogystal â llenwi cais yr Awdurdod Lleol, efallai y bydd gofyn i chi hefyd lenwi ffurflenni ychwanegol, fel Ffurflen Gwybodaeth Atodol.*
*Mae'r ysgolion hyn yn gyfrifol am ystyried cais eich plentyn o'i gymharu â cheisiadau eraill sy'n dod i law yn unol â'u meini prawf eu hunain ar gyfer gor-alw, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn darllen eu Polisi Derbyn unigol yn ofalus cyn gwneud cais.*

***Pwysig*** *- Os ydych chi eisiau gwneud cais am ysgol yng Ngorllewin Swydd Gaer a Chaer neu Gilgwri, rhaid i chi ddefnyddio eu ffurflen gais nhw, gan* ***na allwn*** *ni brosesu ceisiadau ar gyfer ysgolion yng Ngorllewin Swydd Gaer a Chaer na Chilgwri. Nid oes gennym ni gytundeb rhannu data gydag* ***unrhyw*** *Awdurdod Lleol yn Lloegr.*

Argymhellir yn gryf bod rhieni'n datgan mwy nag un dewis, hyd at uchafswm o 6. Rhaid eu rhestru yn nhrefn blaenoriaeth. Dim ond lle yn yr ysgol sy'n cael y flaenoriaeth uchaf y gallwn ei gyflawni y byddwn yn ei gynnig i chi. **<u>Ni fydd rhestru'r un ysgol fwy nag unwaith yn rhoi gwell cyfle i chi o gael lle yn yr ysgol honno.</u>**

### 1.2 Chweched Dosbarth

O ran derbyn disgyblion i’r chweched dosbarth, mae’n bosib i naill ai’r rhiant neu’r person ifanc neu’r ddau ddatgan dewis, a dylid gwneud hyn drwy gysylltu â’r ysgol dan sylw. Yr ysgolion sy’n gyfrifol am y ceisiadau i’w chweched dosbarth.

### 1.3 Ysgolion/Darpariaeth Arbennig

Caiff lleoedd mewn ysgolion arbennig yn Sir y Fflint eu dyrannu drwy Banel Cymedroli ADY yn unig. Ni all yr Awdurdod Lleol brosesu ceisiadau i’r ysgolion hyn.

## 2. Awdurdodau Cyfagos – Derbyn plant i ysgolion y tu allan i Awdurdod Lleol Sir y Fflint

Mae Sir y Fflint yn gweithio'n agos ag Awdurdodau Lleol cyfagos yng Nghymru er mwyn cydlynu trefniadau derbyn. Os ydych chi'n rhiant sy'n byw yn Sir y Fflint ond eisiau dewis ysgol mewn Sir y mae gennym ni gytundeb rhannu data â hi, dylech ddefnyddio ffurflen ddewisiadau Sir y Fflint o hyd. Fe wnawn ni basio'r cais ymlaen i'r Awdurdod Lleol perthnasol yn unol â'n Cytundeb Rhannu Data.

Uwchradd: Rydym yn rhannu data â:

- Cyngor Sir Ddinbych - derbyniadau@sirddinbych.gov.uk
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam - admissions@wrexham.gov.uk

Cynradd: Rydym yn rhannu data â:

- Cyngor Sir Ddinbych - derbyniadau@sirddinbych.gov.uk
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam - admissions@wrexham.gov.uk

I wneud cais i ysgol mewn unrhyw Awdurdod Lleol ar wahân i'r rhai a restrir uchod, dylai rhieni gysylltu â'r Awdurdod Lleol hwnnw'n uniongyrchol.

Cofiwch y gallai amserlenni Awdurdodau Lleol cyfagos fod yn wahanol i'r rhai uchod. Os yw'r ysgol yr hoffech chi ei dewis mewn sir arall, cysylltwch â'r Awdurdod Lleol perthnasol i wneud yn siŵr nad ydych chi'n colli'r dyddiad cau.

***Pwysig*** *- Os ydych chi eisiau gwneud cais am ysgol yng Ngorllewin Swydd Gaer a Chaer neu Gilgwri, rhaid i chi ddefnyddio eu ffurflen gais nhw, gan na allwn ni brosesu ceisiadau ar gyfer ysgolion yng Ngorllewin Swydd Gaer a Chaer na Chilgwri. Nid oes gennym ni gytundeb rhannu data gydag* ***unrhyw*** *Awdurdod Lleol yn Lloegr.*
*Gallai hyn olygu bod angen i chi gyflwyno dau gais os ydych chi'n dewis ysgol yng Ngorllewin Swydd Gaer a Chaer ac ysgol yn Sir y Fflint, er enghraifft.*

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Awdurdod perthnasol.
Cyngor Gorllewin Swydd Gaer a Chaer – admissions@cheshirewestandchester.gov.uk
Cyngor Sir Cilgwri - admissions@wirral.gov.uk

## 3. Trefniadau Derbyn Cydlynol

Mae'r Awdurdod Lleol yn gweithredu cynllun derbyn cydlynol ar gyfer ysgolion a gynhelir o fewn ei ardal, yn unol â Rheoliadau Addysg (Cydlynu Trefniadau Derbyn Ysgolion a Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024. Dan y cynllun hwn, mae rhieni'n gwneud cais am le mewn ysgol drwy broses ymgeisio gyffredin ac yn cael **un cynnig am le mewn ysgol** ar y diwrnod cynnig cenedlaethol perthnasol.

Mae'r cynllun yn cydlynu gwaith prosesu ac amseru'r ceisiadau a'r cynigion ar draws pob ysgol a gynhelir, ac mae pob Awdurdod derbyn yn defnyddio ei feini prawf cyhoeddedig ei hun ar gyfer gor-alw. Mae'r Awdurdod Lleol hefyd yn rhan o drefniadau derbyn trawsffiniol cydlynol gyda Chyngor Sir Ddinbych a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Nid oes unrhyw drefniadau derbyn cydlynol ar waith gydag Awdurdodau Derbyn Lloegr. Mae manylion llawn y trefniadau derbyn cydlynol i'w gweld yn Nhrefniadau Derbyn Cydlynol yr Awdurdod Lleol, a chaiff y rhain eu hadolygu bob blwyddyn.

## 4. Ceisiadau Hwyr

Bydd ceisiadau hwyr yn cael eu hystyried ar ôl y rhai hynny a fydd wedi cael eu cyflwyno erbyn y dyddiad cau. Os bydd yr Awdurdod Lleol yn ystyried bod rhesymau da pam fod y ffurflen gais wedi'i chyflwyno'n hwyr, caiff ei ystyried gyda'r "ceisiadau ar amser". Ym mhob achos, rhaid darparu tystiolaeth ategol.

Pan fydd ysgol yn cael mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael, bydd ceisiadau a gyflwynir ar amser yn cael eu trefnu ôl y meini prawf ar gyfer gor-alw, a bydd lleoedd yn cael eu cynnig i'r ymgeiswyr a gyflwynodd gais ar amser sydd uchaf ar y rhestr. Yna, bydd yr holl geisiadau hwyr yn cael eu trefnu yn ôl y meini prawf ar gyfer gor-alw, a bydd unrhyw leoedd sydd ar ôl yn cael eu cynnig i'r ymgeiswyr sydd uchaf ar y rhestr ar ddiwedd y cyfnod dyrannu.

### 4.1 Ceisiadau a Gyflwynir ar Ôl Diwedd y Cyfnod Dyrannu

**Ni** fydd ceisiadau sy'n cael eu cyflwyno **ar ôl** diwedd y cyfnod dyrannu yn cael eu hystyried fel eithriadau i'w hychwanegu at y 'ceisiadau ar amser'.
Os bydd cais hwyr yn dod i law **ar ôl** diwedd y cyfnod dyrannu, ni fydd yn cael ei brosesu tan ar ôl y "dyddiad cynnig", yn unol â'r amserlen isod.

**Mae'r amserlen hon yn cyfeirio at ddyddiadau prosesu ceisiadau'r Prif Gylch Uwchradd a gyflwynir ar ôl y dyddiad cau:**

| Dyddiad y cais hwyr neu'r cais i wneud newidiadau i'r cais a gyflwynwyd rhwng | Dyddiad anfon hysbysiad am y canlyniad |
|---|---|
| 1 Tachwedd 2026 – 4 Ionawr 2027 | Diwrnod Cynnig – dydd Llun 1 Mawrth 2027 |
| 5 Ionawr – 31 Mawrth 2027 | Ebrill 2027 |
| 1 Ebrill – 30 Ebrill 2027 | Mai 2027 |
| 1 Mai – 31 Mai 2027 | Mehefin 2027 |
| 1 Mehefin – 2 Gorffennaf 2027 | Gorffennaf 2027 |
| 3 Gorffennaf – 31 Awst 2027 | Awst/Medi 2027 |

**Mae'r amserlen hon yn cyfeirio at ddyddiadau prosesu ceisiadau'r Prif Gylch Derbyn a gyflwynir ar ôl y dyddiad cau:**

| Dyddiad y cais hwyr neu'r cais i wneud newidiadau i'r cais a gyflwynwyd rhwng | Dyddiad anfon hysbysiad am y canlyniad |
|---|---|
| 16 Ionawr – 23 Chwefror 2027 | Diwrnod Cynnig – dydd Gwener 16 Ebrill 2027 |
| 24 Chwefror – 15 Mai 2027 | Mehefin 2027 |

| | |
|---|---|
| 16 Mai – 15 Mehefin 2027 | Gorffennaf 2027 |
| 16 Mehefin – 2 Gorffennaf 2027 | Awst 2027 |
| 3 Gorffennaf – 31 Awst 2027 | Medi 2027 |

**Mae'r amserlen hon yn cyfeirio at ddyddiadau prosesu ceisiadau'r Prif Gylch Meithrin a gyflwynir ar ôl y dyddiad cau:**

| Dyddiad cyflwyno'r cais | Dyddiad anfon neges e-bost yn hysbysu am y dyranaid |
|---|---|
| 16 Chwefror – 22 Mawrth 2027 | Diwrnod Cynnig – 5 Mai 2027 |
| 23 Mawrth – 4 Mai 2027 | Mehefin 2027 |
| 5 Mai – 4 Mehefin 2027 | Gorffennaf 2027 |
| 5 Mehefin – 2 Gorffennaf 2027 | Awst 2027 |
| 3 Gorffennaf ymlaen | Medi 2027 |

## 5. Y Broses ar gyfer cynnig lle mewn ysgol

Bydd pob disgybl yn cael ei dderbyn os nad yw'r Nifer Derbyn wedi ei gyrraedd. Mae Nifer Derbyn pob ysgol yn ymwneud â nifer y plant y gellir eu derbyn i bob grŵp blwyddyn yn ystod y flwyddyn ysgol. Cyfrifir Nifer Derbyn ysgol drwy ddefnyddio'r dull asesu capasiti yn nogfen ganllaw Llywodraeth Cymru, 'Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru'. Mae Niferoedd Derbyn pob ysgol i'w gweld yn y 'Rhestr Ysgolion'.

Os bydd mwy o rieni yn datgan dewis am ysgol nag sydd yna o leoedd ar gael ynddi, ac mae'r Nifer Derbyn wedi'i gyrraedd, bydd yr Awdurdod Lleol yn defnyddio'r meini prawf cyhoeddedig ar gyfer gor-alw i restru pob dewis a ddatganwyd yn eu trefn, er mwyn gweld i bwy y gellir cynnig lle.

Bydd pob dewis a gyflwynir yn cael ei ystyried ar sail dewisiadau cyfartal. Golyga hyn y bydd pob dewis yn cael ei ystyried yn erbyn y meini prawf perthnasol ar gyfer gor-alw yn unig yn y lle cyntaf, h.y. heb gyfeirio at y rhestr flaenoriaeth.

Os gellir cynnig lle mewn mwy nag un o'r dewisiadau a ddatganwyd (oherwydd bod gan ysgol a ddewiswyd leoedd heb eu llenwi, neu oherwydd bod yr ymgeisydd yn cael digon o flaenoriaeth yn erbyn y meini prawf ar gyfer ysgol â gormod o geisiadau, neu oherwydd bod ysgol yn derbyn yr un nifer o geisiadau â nifer y lleoedd sydd ar gael), bydd lle yn cael ei gynnig yn yr ysgol sy'n cael y flaenoriaeth uchaf ar y cais.

**Sylwch: Nid yw datgan dewis yn gwarantu lle yn yr ysgol o'ch dewis os oes gormod o alw am leoedd yn yr ysgol honno. Os bydd mwy o rieni'n gwneud cais am leoedd yn yr ysgol na nifer y lleoedd sydd ar gael, bydd yr Awdurdod Lleol yn dyrannu lleoedd drwy ddefnyddio'r meini prawf ar gyfer gor-alw, fel y nodir yn y polisi.**

## 6. Ysgolion Sefydledig ac Ysgolion Ffydd Gwirfoddol a Gynorthwyir

Os byddwch chi'n datgan dewis am ysgol wirfoddol a gynorthwyir (Gatholig neu'r Eglwys yng Nghymru) neu am ysgol sefydledig yn Sir y Fflint, anfonir eich manylion at yr ysgol berthnasol. Efallai y bydd gofyn i chi hefyd lenwi Ffurflen Wybodaeth Atodol sydd ar gael yn uniongyrchol gan yr ysgol. Mae'r amserlen ar gyfer derbyniadau hefyd yn berthnasol i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig.

Mae'r ysgolion hyn yn gyfrifol am ystyried cais eich plentyn o'i gymharu â cheisiadau eraill sy'n dod i law yn unol â'u meini prawf eu hunain ar gyfer gor-alw. Ar ôl i'r ceisiadau ar gyfer yr ysgolion hyn gael eu rhestru yn eu trefn, cânt eu rhannu â'r Awdurdod Lleol, a fydd yn anfon hysbysiad yn cynnig lle ar y 'diwrnod cynnig' perthnasol. Bydd unrhyw ddewisiadau na lwyddwyd i'w bodloni yn cael eu dychwelyd i'r Awdurdod Lleol a'u trin yn yr un modd ag unrhyw ddewisiadau eraill a ddatganwyd am Ysgolion Cymunedol Sir y Fflint.

Mae Polisi Derbyn unigol yr ysgolion hyn i'w weld yn adran berthnasol y llyfryn canllaw i rieni, neu ar wefan yr ysgol dan sylw.

Mae yna 1 Ysgol Sefydledig yn Sir y Fflint:

- Ysgol Gynradd Sefydledig Derwen, Higher Kinnerton

Mae yna 5 Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir yn Sir y Fflint:

- Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair, Y Fflint
- Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Gwenffrewi, Treffynnon
- Ysgol Gynradd Gatholig Dewi Sant, Yr Wyddgrug
- Ysgol Gynradd Gatholig St Anthony, Saltney
- Ysgol Gynradd Gatholig Yr Hybarch Edward Morgan, Shotton

Mae yna 1 Ysgol Uwchradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir yn Sir y Fflint:

- Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn (Gwirfoddol a Gynorthwyir)

Mae yna 8 Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru yn Sir y Fflint:

- Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru - Ysgol yr Esgob
- Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru Pentref Penarlâg
- Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru Licswm
- Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru Nercwys - Ysgol Santes Fair, Nercwys
- Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru Sant Ioan Fedyddiwr, Penmynydd
- Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru Sant Ethelwold, Shotton

- Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru Trelawnyd
- Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru - Ysgol y Llan, Chwitffordd

Mae yna 1 Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru yn Sir y Fflint y mae'r Awdurdod Lleol yn Awdurdod Derbyn ar ei chyfer. Mae Polisi Derbyn yr Awdurdod Lleol yn berthnasol i'r ysgol hon:

- Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru Nannerch

## 7. Polisi Derbyn i Ysgolion

Y Cyngor Sir yw'r Awdurdod Derbyn ar gyfer yr holl ysgolion cynradd ac uwchradd cymunedol, gan gynnwys ysgolion gwirfoddol a reolir, ac mae'n gyfrifol am bennu'r trefniadau derbyn i'r ysgolion hyn. Bydd yr Awdurdod Lleol yn ymgynghori â Chyrff Llywodraethu'r ysgolion a'r Awdurdodau Addysg Esgobaethol bob blwyddyn ynglŷn â'u trefniadau derbyn.

Bydd yr Awdurdod Lleol yn cydymffurfio â gofynion statudol a Chod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru ac yn ystyried dewis y rhieni yng nghyd-destun ei ddyletswydd i sicrhau y darperir addysg effeithiol ac y defnyddir adnoddau addysg yn effeithlon. Wrth ystyried ceisiadau, bydd yr Awdurdod Lleol yn dilyn darpariaethau'r Cod Derbyn i Ysgolion, sy'n nodi y dylai Awdurdodau Derbyn dderbyn hyd at nifer derbyn yr ysgol, ac anaml y bydd modd profi rhagfarn yn sail ar gyfer gwrthod disgybl ychwanegol os bydd y nifer yn dal o dan y nifer derbyn.

Dan y Cod Derbyn i Ysgolion, gallai fod yn rhesymol mewn amgylchiadau eithriadol i'r Awdurdod Lleol, gyda chytundeb y Pennaeth, weithredu fel y mae'n gweld orau i dderbyn mwy o ddisgyblion na'r nifer derbyn, ar yr amod nad yw derbyn mwy o ddisgyblion yn cael effaith niweidiol ar yr ysgol yn y tymor hwy, gan gynnwys y ddyletswydd i gydymffurfio â deddfwriaeth ar faint dosbarthiadau babanod, ymysg ffactorau eraill.

Bydd yr Awdurdod Lleol yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i sicrhau y darperir addysg effeithiol ac y defnyddir adnoddau'n effeithlon. Drwy wneud hynny, bydd yr Awdurdod Lleol yn ystyried yr holl adnoddau sydd ar gael i bob ysgol, gan gynnwys adeiladau a staff, ac unrhyw gyfyngiadau a osodir gan drefniadaeth yr ysgol a'r cwricwlwm. Bydd hefyd yn ystyried y goblygiadau o ran adnoddau i'r Awdurdod a'r effaith ar bolisïau addysg eraill. Yn ogystal, bydd yn ystyried a fydd derbyn mwy o ddisgyblion na'r nifer derbyn yn cael effaith niweidiol ar ysgolion eraill gerllaw.

Pan fydd rhiant yn rhoi gwybodaeth dwyllodrus neu fwriadol gamarweiniol er mwyn cael lle mewn ysgol ar gyfer ei blentyn, mae'r Awdurdod Lleol yn cadw'r hawl i dynnu'r cynnig o le yn ôl. Os caiff lle ei dynnu'n ôl ar sail gwybodaeth gamarweiniol, rhaid ystyried y cais o'r newydd a chynnig hawl apelio os gwrthodir lle a gynigir.

Nid oes gan Awdurdod Lleol Sir y Fflint drefniadau ysgolion dalgylch nac ysgolion bwydo. Mae gofyn i bob dysgwr gyflwyno cais i gael ei dderbyn i addysg Derbyn ac Uwchradd. Mae hyn yn cynnwys dysgwyr sy'n mynd i'r ysgol ar hyn o bryd drwy ddarpariaeth meithrin neu gyfle cynnar, yn ogystal â dysgwyr sy'n mynd i ysgol lle mae'r cyfnodau cynradd ac uwchradd wedi'u lleoli ar yr un safle (Ysgol Maes-y-Felin/Ysgol Uwchradd Treffynnon; Ysgol Mynydd Isa/Ysgol Uwchradd Argoed). Mae hyn hefyd yn berthnasol ar gyfer ceisiadau i ysgolion cyfrwng Cymraeg rhwng cyfnodau.

### 7.1 Clystyrau Ysgolion

Mae rhai ysgolion cynradd ac uwchradd yn cydweithio fel rhan o glwstwr i gefnogi parhad dysgu a chryfhau cysylltiadau rhwng cyfnodau addysg. **Nid yw'r** ffaith bod ysgol yn rhan o glwstwr ysgolion yn rhoi unrhyw flaenoriaeth i ddisgyblion nac yn gwarantu lle iddynt mewn ysgol uwchradd benodol. Caiff ceisiadau i dderbyn disgybl i'r cyfnod addysg nesaf eu hystyried yn unol â'r trefniadau derbyn perthnasol a'r meini prawf ar gyfer gor-alw yn ddieithriad.

## 8. <u>Cyfnodau Derbyn</u>

Mae angen *cais newydd ar wahân* ar gyfer pob un o'r cyfnodau addysg canlynol. Nid yw sicrhau lle mewn un cyfnod addysg yn gwarantu lle yn y cyfnod nesaf.

### 8.1 <u>Cyfle Cynnar - Addysg Feithrin ar gyfer Plant 3 oed</u>

Mae lle mewn addysg ran-amser ar gael i bob plentyn yn y tymor ysgol ar ôl eu pen-blwydd yn dair oed.

Mae'r tabl isod yn nodi'r dyddiadau allweddol.

| **Addysg Cyfle Cynnar ar gyfer Plant 3 oed:** | | |
|---|---|---|
| Plant sy'n cael eu pen-blwydd yn 3 oed rhwng: | Hawl i gael: | |
| 1 Medi a 31 Rhagfyr | 2 dymor (Gwanwyn a Haf) o Addysg Cyfle Cynnar (10 awr yr wythnos) o ddechrau'r tymor ysgol ar neu ar ôl 1 Ionawr | Gellir cael Addysg Cyfle Cynnar mewn cylch chwarae cyn ysgol (cyfrwng Cymraeg neu Saesneg), meithrinfa ddydd breifat neu ddosbarth meithrin mewn ysgol. |
| 1 Ionawr a 31 Mawrth | 1 tymor (Haf) o Addysg Cyfle Cynnar o ddechrau'r tymor ysgol ar neu ar ôl 1 Ebrill | |

Mae rhagor o wybodaeth a manylion am sut i wneud cais i'w gweld yn <u>Addysg Gynnar a Ariennir</u>.

Bydd plant sy'n cael eu pen-blwydd yn 3 oed rhwng 1 Ebrill a 31 Awst yn cael addysg gynnar mewn dosbarth meithrin yn yr ysgol o ddechrau Tymor yr Hydref ar neu ar ôl 1 Medi. I gael rhagor o wybodaeth, trowch at **8.2 Addysg Feithrin (plant 3 a 4 oed)**

**Nodiadau:**

- Nid yw derbyn plentyn i Addysg Cyfle Cynnar mewn ysgol benodol yn gwarantu y caiff ei dderbyn i'r dosbarth meithrin yn yr ysgol honno. Bydd angen gwneud cais newydd. I gael rhagor o wybodaeth, trowch at 8.2 Addysg Feithrin (plant 3 a 4 oed)
- Ni ddarperir cludiant.
- Mae Addysg Gynnar a Ariennir yn rhan o "gynnig gofal plant 30 awr" Llywodraeth Cymru ar gyfer plant tair a phedair oed sydd â rhieni sy'n gweithio. Mae manylion llawn y gofal plant i'w gweld yn <u>Cynnig Gofal Plant Cymru</u>
- I gael rhagor o wybodaeth, ffoniwch Dîm Rhaglenni Gofal Plant y Blynyddoedd Cynnar ar 01352 703930

## 8.2 Addysg Feithrin (plant 3 a 4 oed)

Bydd plentyn yn dod yn gymwys i gael lle mewn dosbarth meithrin yn ystod y mis Medi yn dilyn ei ben-blwydd yn 3 oed. Nid yw addysg Feithrin yn orfodol ac **nid oes gan rieni hawl i apelio** penderfyniadau am dderbyniadau meithrin o dan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Darperir addysg feithrin ym mhob ysgol ar sail 5 sesiwn 2.5 awr (12.5 awr) yr wythnos ar gyfer pob plentyn. Mae lleoedd ar gael mewn dosbarthiadau Meithrin ym mhob ysgol gynradd yn Sir y Fflint hyd at y Nifer Derbyn ym mhob ysgol.

Gall rhieni ddewis unrhyw ddosbarth meithrin, waeth lle mae cartref y plentyn mewn perthynas â'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw datgan dewis yn gwarantu lle yn y dosbarth meithrin hwnnw. Os derbynnir mwy o geisiadau am leoedd meithrin na nifer y lleoedd sydd ar gael, ymdrinnir â hwy drwy ddefnyddio'r meini prawf ar gyfer gor-alw sy'n berthnasol i ysgolion cynradd fel y'u nodir yn y canllaw hwn.

**I gael gwybodaeth am sut i wneud cais, trowch at 1. Sut i wneud cais**

**Nodiadau:**

- Nid yw derbyn plentyn i ddosbarth meithrin mewn Ysgol Gynradd benodol yn gwarantu y caiff ei dderbyn i'r dosbarth derbyn yn yr ysgol honno. Bydd angen gwneud cais newydd.
- Ni ddarperir cludiant.
- Nid oes hawl i apelio yn erbyn derbyniadau Meithrin.

## 8.3 Cynradd

Bydd yr Awdurdod yn derbyn plentyn i ysgol gynradd a gynhelir ar ddechrau'r flwyddyn ysgol os yw'r plentyn wedi cyrraedd ei ben-blwydd yn 4 oed ar neu cyn 31 Awst yn y flwyddyn galendr honno.

Pan fydd lle mewn dosbarth derbyn wedi'i gynnig a'i dderbyn, caiff rhieni ohirio dyddiad dechrau eu plentyn tan ddechrau'r tymor yn dilyn pen-blwydd y plentyn yn 5 oed. Ni all y rhieni ohirio mynediad y tu hwnt i hyn, nac y tu hwnt i'r flwyddyn academaidd y derbyniwyd y cais gwreiddiol ar ei gyfer.

Yn unol â'r ddeddfwriaeth, cyfyngir maint dosbarthiadau babanod (Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2) i ddim mwy na 30 o ddisgyblion i bob athro/athrawes. O ran dosbarthiadau iau (Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6), y targed yw dim mwy na 30 i bob athro/athrawes.

**8.4 Uwchradd**

Bydd yr Awdurdod yn derbyn plentyn i ysgol uwchradd a gynhelir ar ddechrau'r flwyddyn ysgol yn dilyn pen-blwydd y plentyn yn 11 oed.

## 9. Y Meini Prawf ar gyfer Gor-alw

Bydd **pob** disgybl yn cael ei dderbyn os **nad yw'r Nifer Derbyn wedi ei gyrraedd**. Fodd bynnag, os byddwn ni'n cael mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael, bydd y ceisiadau'n cael eu hystyried yn unol â'r meini prawf ar gyfer gor-alw, a restrir yn nhrefn blaenoriaeth.

Bydd unrhyw blentyn sydd â'r ysgol wedi'i henwi yn Rhan 2D Cynllun Datblygu Unigol yr Awdurdod Lleol yn cael eu derbyn cyn rhoi'r meini prawf ar gyfer gor-alw ar waith.

**Meini prawf i'r Awdurdod Lleol eu defnyddio yn ôl trefn blaenoriaeth ar gyfer derbyniadau i Ysgolion Meithrin, Cynradd neu Uwchradd:**

a) Plant sy'n derbyn gofal neu blant sydd wedi derbyn gofal yn y gorffennol.

b) Disgyblion y nodwyd mai'r ysgol o'u dewis yw'r ysgol addas agosaf i'w cyfeiriad cartref.

c) Disgyblion fydd â brawd neu chwaer yn mynd i'r ysgol o'u dewis ar y dyddiad derbyn disgwyliedig. Dim ond ar gyfer y cyfnod addysg statudol, h.y. hyd at Flwyddyn 11, y defnyddir y maen prawf brawd a chwaer.

d) Disgyblion eraill nad yw meini prawf (a) i (c) yn berthnasol iddynt. Bydd lleoedd yn cael eu dyrannu yn nhrefn pellter, hyd at Nifer Derbyn yr ysgol.
*Bydd y pellter yn cael ei fesur yn ôl y llwybr cerdded byrraf posib o gyfeiriad cartref y disgybl i brif fynedfa'r ysgol, fel y pennir gan System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) yr Awdurdod Lleol.

Bydd y meini prawf ar gyfer gor-alw yn cael eu defnyddio'n gyntaf ar gyfer pob cais a gyflwynir cyn y dyddiad cau, ac yna ar gyfer ceisiadau hwyr a gyflwynir cyn diwedd y cyfnod dyrannu. Os bydd cais hwyr yn dod i law ar ôl diwedd y cyfnod dyrannu, ni fydd yn cael ei brosesu tan ar ôl y "dyddiad cynnig".

**Maen Prawf Penderfynu**
Os ceir mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael yn unrhyw un o'r categorïau uchod, bydd 'maen prawf penderfynu' yn cael ei ddefnyddio a bydd y lleoedd yn cael eu dyrannu yn nhrefn pellter, gan roi blaenoriaeth i'r rhai sy'n byw agosaf at yr ysgol. Er cysondeb, mae'r Awdurdod Lleol yn defnyddio pellteroedd sy'n cael eu mesur gan system fapio GIS.

Os na all yr Awdurdod gydymffurfio â dewis(iadau) y rhieni, gofynnir i'r rhiant ystyried lleoedd gwag mewn ysgolion eraill.

Er diben dyrannu lle, dehonglir **yr ysgol addas agosaf** fel a ganlyn:

- Yr ysgol a gynhelir gan yr Awdurdod Lleol agosaf at gartref y plentyn, wedi'i fesur o gyfeiriad cartref y plentyn i brif fynedfa'r ysgol ar hyd y llwybr cerdded byrraf.
- Yr ysgol cyfrwng Cymraeg agosaf at gartref y plentyn, wedi'i fesur o gyfeiriad cartref y plentyn i brif fynedfa'r ysgol ar hyd y llwybr cerdded byrraf, os yw'r rhieni'n dymuno i'w plentyn gael addysg cyfrwng Cymraeg.
- Yr ysgol enwadol agosaf os yw'r rhieni'n dymuno i'w plant gael eu haddysg mewn ysgol enwadol.

Wrth benderfynu ar yr '**ysgol addas agosaf**', **dim ond** cyfeiriad cartref y disgybl y bydd yr Awdurdod Lleol yn ei dderbyn, ac nid cyfeiriad gwarchodwr plant neu daid a nain, er enghraifft.

**Ni chewch ddefnyddio cyfeiriad y byddwch yn byw ynddo yn y dyfodol chwaith, er enghraifft, tŷ rydych chi wrthi'n ei brynu.**

Mae rhagor o wybodaeth am Gyfeiriad Cartref a'r prawf o gyfeiriad a dderbynnir i'w gweld **YMA: 13. DIFFINIADAU**

## 10. Derbyn Disgyblion o’r Tu Allan i Sir y Fflint

Bydd disgyblion sy'n gwneud cais i gael eu derbyn i ysgol yn Sir y Fflint nad ydynt yn byw yn Sir y Fflint yn cael cynnig lle mewn ysgol yn unol â threfniadau derbyn Sir y Fflint.

## 11. Hysbysu Rhieni

Bydd rhieni’n cael eu hysbysu am ganlyniad eu cais am le i’w plentyn mewn ysgol drwy neges e-bost yn unig.

Os bydd y cais wedi’i wrthod, bydd y neges e-bost yn nodi’r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw a’r hawl i apelio.
Gofynnir i rieni benderfynu ar un neu fwy o’r dewisiadau canlynol erbyn dyddiad penodedig:

- Rhoi enw'r plentyn ar restr aros.
- Mynd ymlaen i apelio a rhoi enw'r plentyn ar restr aros.
- Derbyn y lle a gynigir mewn ysgol arall a ddewiswyd.
- Gwneud cais am ysgol arall drwy anfon neges e-bost at y Tîm Derbyn.

Mae pob dewis ar gael gyda’i gilydd neu’n unigol, h.y. derbyn eich ail ddewis, rhoi enw eich plentyn ar restr aros, apelio ac ystyried lle mewn ysgol arall, os dymunwch chi wneud hynny.

## 12. Rhestrau Aros

Bydd rhestrau aros ar gyfer ysgolion sydd wedi cael mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael yn cynnwys y plant hynny y mae eu rhieni wedi gwneud cais penodol yn ysgrifenedig, dros e-bost, i gael rhoi eu henw ar restr aros yr ysgol, a’r plant hynny y mae ffurflen apelio wedi cael ei chyflwyno ar eu cyfer.
Ar gyfer ceisiadau’r prif gylch derbyn, bydd rhestrau aros yn cael eu cadw tan 30 Medi yn y flwyddyn ysgol dan sylw. Ar ôl y dyddiad hwnnw, rhaid i unrhyw rieni sy’n dal i fod eisiau i’w plentyn gael ei ystyried am le ailgyflwyno cais yn defnyddio’r ffurflen gais ar gyfer y grŵp blwyddyn penodol hwnnw. Os bydd lleoedd yn dod yn wag, byddant yn cael eu dyrannu yn unol â’r meini prawf ar gyfer gor-alw yn hytrach nag yn ôl dyddiad cyflwyno’r cais neu’r dyddiad yr ychwanegwyd enw’r plentyn at y rhestr aros.

Yn y prif gylch derbyn, bydd rhestrau aros yn cael eu paratoi, a bydd unrhyw leoedd uwchradd a fydd yn dod yn wag ar ôl 1 Mawrth (y dyddiad cynnig) yn cael eu dyrannu ar ôl 1 Ebrill. Yna, bydd y rhestrau aros yn cael eu diweddaru, a bydd unrhyw leoedd eraill a fydd yn dod yn wag yn cael eu dyrannu ar ôl 1 Mai.

Ar gyfer y cynradd, bydd unrhyw leoedd derbyn a fydd yn dod yn wag ar ôl 16 Ebrill (y dyddiad cynnig) yn cael eu dyrannu ar ôl 16 Mai. Yna, bydd y rhestrau aros yn cael eu diweddaru, a bydd unrhyw leoedd eraill a fydd yn dod yn wag yn cael eu dyrannu ar ôl 16 Mehefin.

Pan fydd ceisiadau i symud ysgol y tu allan i'r cyfnodau derbyn arferol yn cael eu gwrthod, bydd yr Awdurdod Lleol, gyda chytundeb y rhiant, yn rhoi enw'r plentyn ar restr aros a fydd yn parhau ar agor tan ddiwedd y tymor ysgol y gwnaed y cais ar ei gyfer. Ar ôl y dyddiad hwnnw, rhaid i rieni wneud cais penodol i enw eu plentyn gael aros ar y rhestr aros am dymor ysgol ychwanegol, neu bydd eu henw'n cael ei dynnu oddi arni. Os gwneir y cais ar ddiwedd tymor ysgol, gall enw'r plentyn aros ar y rhestr aros tan ddiwedd y tymor canlynol. Ni all yr Awdurdod Lleol ddatgelu safle eich plentyn ar y rhestr aros.

## 13. Diffiniadau

### 1. AWDURDOD DERBYN

Y corff sy'n gyfrifol am bennu trefniadau derbyn ysgol a'u rhoi ar waith. Yn achos ysgolion cymunedol ac ysgolion gwirfoddol a reolir, Cyngor Sir y Fflint yw'r Awdurdod Derbyn.

Yn achos ysgolion sefydliadol ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, Corff Llywodraethu'r ysgol yw'r Awdurdod Derbyn.

### 2. CYFRIFOLDEB RHIANT

Yn dilyn newidiadau i'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â phlant yn Neddf Plant 1989, a ddaeth yn gyfraith fis Hydref 1991, mae angen i ysgolion gael gwybod pwy sydd â 'chyfrifoldeb rhiant' dros bob plentyn.

Mae hyn yn sicrhau y rhoddir awdurdod priodol pan fo'r ysgol angen caniatâd rhiant. Bydd hefyd yn sicrhau y gall unigolion sydd â chyfrifoldeb rhiant, ond nad ydynt yn byw gyda'r plentyn, dderbyn adroddiadau ysgol a chael cyfle i gymryd rhan yn addysg y plentyn.

Cael cyfrifoldeb rhiant:

- Mae'r fam yn cael cyfrifoldeb rhiant yn awtomatig ar enedigaeth y plentyn.
- Yng Nghymru a Lloegr, os yw rhieni plentyn yn briod â'i gilydd ar adeg yr enedigaeth, neu os ydynt wedi mabwysiadu plentyn gyda'i gilydd, mae gan y ddau ohonynt gyfrifoldeb rhiant. Nid yw rhieni'n colli cyfrifoldeb rhiant os byddant yn ysgaru, ac mae hynny'n berthnasol i'r rhiant y mae'r plentyn yn byw gyda nhw a'r rhiant arall. Nid felly mohoni i rieni dibriod, o reidrwydd.
- Rhaid i'r tad fod yn briod â'r fam pan gaiff y plentyn ei eni i gael cyfrifoldeb rhiant, neu sicrhau cyfrifoldeb cyfreithiol am y plentyn drwy un o'r tri dull a ganlyn:
    - (Ers 1 Rhagfyr 2003) drwy gofrestru genedigaeth y plentyn ar y cyd â'r fam
    - Drwy gytundeb cyfrifoldeb rhiant â'r fam
    - Drwy orchymyn cyfrifoldeb rhiant a wnaed gan Lys

Gofynnir i rieni gydweithredu â staff yr ysgol drwy ddarparu manylion y bobl hynny sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y disgybl. Dylid hysbysu'r ysgol am unrhyw newid yn nhrefniadau cyfrifoldeb rhiant neu ofal beunyddiol y plentyn.

Mae unrhyw gyfeiriad at 'rieni' yn y llyfryn hwn yn cynnwys unrhyw unigolyn sydd â'r plant yn eu gofal.

Dim ond yr unigolyn/unigolion sydd â chyfrifoldeb rhiant dros blentyn ("Rhieni") all wneud cais am le i blentyn mewn ysgol. Os yw'r cyfrifoldeb rhiant wedi ei rannu, dylai'r holl Rieni **ddod i gytundeb** ar y dewisiadau a restrir yn y cais.

***Cyfrifoldeb y Rhieni yw dod i'r cytundeb hwn.***

Os na allwch chi gytuno gyda'r Rhiant arall pa ysgol y dylai eich plentyn fynd iddi, dylech gymryd eich cyngor cyfreithiol eich hun ar unwaith ynglŷn â gwneud cais brys i'r Llys.

Os cawn ni wybod nad yw'r ddau riant sydd â chyfrifoldeb rhiant yn cytuno ar y dewis o ysgol, bydd y cais yn cael ei oedi nes y byddant wedi dod i gytundeb. Ni fydd yr Awdurdod Lleol yn chwarae unrhyw ran yn y broses o ddod i gytundeb.

## 3. CYFEIRIAD CARTREF

**Man preswylio parhaol presennol** y plentyn yw'r cyfeiriad y dylid ei roi ar y ffurflen gais.

Ystyr parhaol yw'r man y mae eich plentyn yn byw a chysgu ynddo am fwyafrif yr wythnos ysgol, nid rhywle y mae'n aros dros dro am gyfnod byr. Cyfeiriad y Rheini fydd hyn fel arfer.

Gellir gwirio cyfeiriadau yn erbyn cofnodion Cronfa Ddata Treth y Cyngor. Yn ogystal, gellir gofyn i rieni brofi eu bod yn byw mewn cyfeiriad penodol, er enghraifft, drwy ddarparu unrhyw un o'r dogfennau canlynol: Gohebiaeth Treth y Cyngor, neu unrhyw dystiolaeth arall y mae'r Awdurdod Lleol yn ei ystyried yn briodol.

Sylwch fod rhaid i unrhyw ddogfennau a ddarperir fod yn berthnasol, yn gyfredol ac yn dangos y cyfeiriad a nodwyd ar y ffurflen gais. Rhaid i'r dogfennau hefyd fod â'ch enw chi arnynt a rhaid darparu'r ddogfen fwyaf diweddar â dyddiad dim mwy na 3 mis cyn gwneud y cais arni.

At ddibenion dyrannu, bydd unrhyw gynnig o le mewn ysgol yn seiliedig ar ble mae eich plentyn yn byw ar ddiwedd y cyfnod dyrannu, ac mae'n amodol ar fod eich plentyn yn byw yn y cyfeiriad hwnnw, oni fyddwch chi wedi rhoi gwybod i ni eu bod wedi symud yn y cyfamser, a'n bod ni wedi derbyn hynny.

Os nad yw'r Awdurdod Lleol yn fodlon â'r dystiolaeth a ddarparwyd, gan gynnwys os nad ydych chi wedi dilyn telerau'r polisi hwn, yna **ni fydd cais eich plentyn yn cael ei dderbyn a chaiff ei dynnu'n ôl**.

Rhybuddir rhieni y gellir tynnu lle mewn ysgol yn ôl yn gyfreithlon os yw'r wybodaeth a roddwyd ar eu ffurflen gais yn dwyllodrus ac/neu'n gamarweiniol. Gall darparu gwybodaeth anghywir yn fwriadol ar ffurflen gais fod yn drosedd dan Ddeddf Twyll 2006. Bydd yr Awdurdod Lleol yn ymchwilio i bob cais lle mae amheuaeth am y cyfeiriad a roddir.

Y Rhieni sy'n gyfrifol am ddarparu digon o dystiolaeth ddogfennol i ddangos mai'r cyfeiriad a ddefnyddiwyd ar y cais yw'r man preswyl parhaol. Gallai defnyddio gwybodaeth ffug, gamarweiniol neu anghywir, gan gynnwys gadael gwybodaeth allan, arwain at dynnu cynnig yn ôl os oedd yr Awdurdod Lleol eisoes wedi cynnig lle mewn ysgol.

**3.1 Dau Gyfeiriad Cartref**

Pan fo plentyn yn byw mewn dau gyfeiriad, rhaid i'r rhieni ddynodi un cyfeiriad i'w ddefnyddio er diben y cais. Os oes yna drefniant i rannu gofal yn gyfartal, gallai'r Awdurdod Lleol ofyn am dystiolaeth ddogfennol, fel gorchymyn llys rhannu gofal dilys, i gadarnhau'r trefniant hwn. Os nad oes gorchymyn llys rhannu gofal na dogfennau cyfreithiol eraill ar gael i gadarnhau y rhennir y gofal yn gyfartal, ystyrir mai prif fan preswyl y plentyn yw cartref y rhiant sy'n derbyn Budd-dal Plant. Gellir dilysu unrhyw gyfeiriad a ddarperir yn erbyn cofnodion Treth y Cyngor.

**3.2 Cyfeiriad Dros Dro**

Os yw plentyn yn byw mewn cyfeiriad dros dro adeg llenwi'r cais, gall yr Awdurdod Lleol ofyn am dystiolaeth ddogfennol i gadarnhau'r cyfeiriad hwnnw. Gallai tystiolaeth dderbyniol gynnwys cytundeb tenantiaeth wedi'i lofnodi, llythyr gan gyfreithiwr, landlord neu ddarparwr tai yn cadarnhau'r trefniant, neu ohebiaeth swyddogol (HMRC, DWP, Credyd Cynhwysol) sy'n dangos enw a chyfeiriad yr ymgeisydd, neu unrhyw dystiolaeth arall y mae'r Awdurdod Lleol yn ei ystyried yn briodol. Pan fo'n briodol, efallai y bydd gofyn i ymgeiswyr hefyd ddangos mai'r cyfeiriad dros dro yw unig neu brif gyfeiriad y plentyn, ac y bwriedir aros yn y cyfeiriad hwnnw. Mae'r Awdurdod Lleol yn cadw'r hawl i ofyn am dystiolaeth bellach neu i dynnu cynnig yn ôl os canfyddir y defnyddiwyd cyfeiriad er mwyn sicrhau lle mewn ysgol yn unig.

**Sylwch:** Os byddwch chi'n symud ar ôl gwneud cais ond yn ystod y cyfnod dyrannu, rhaid i chi ddarparu prawf o'ch cyfeiriad newydd i ni. Mae enghreifftiau o'r dystiolaeth dderbyniol i'w gweld uchod.
Cofiwch fod rhaid i unrhyw ddogfennau a ddarperir fod yn berthnasol, yn gyfredol ac yn dangos y cyfeiriad a nodwyd ar y ffurflen gais. Rhaid i'r dogfennau hefyd fod â'ch enw chi arnynt a rhaid darparu'r ddogfen fwyaf diweddar â dyddiad dim mwy na 3 mis cyn gwneud y cais arni.

*Ym mhob achos, y Rhiant/Rhieni sy'n gyfrifol am ddarparu digon o dystiolaeth briodol i ddangos mai'r cyfeiriad a ddefnyddiwyd ar y cais yw'r man preswyl parhaol pan ofynnir amdani.*

## 4. PELLTER

Mae'r Cyngor yn defnyddio System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS), i gyfrifo'r pellter byrraf o'r cartref i'r ysgol mewn milltiroedd. Mae'r System hon wedi'i chydweddu â meddalwedd derbyn ysgolion Synergy. Bydd cyfesurynnau cyfeiriad cartref ymgeisydd yn cael eu pennu gan ddefnyddio'r Rhestr Tir ac Eiddo Lleol a Data Pwynt Cyfeiriad yr Arolwg Ordnans. Bydd y man cychwyn ar gyfer asesu taith yn cael ei bennu fel y pwynt agosaf ar y rhwydwaith llwybrau cerdded i gyfeiriad y disgybl (prif fynedfa'r eiddo fel arfer), i brif fynedfa'r ysgol. Caiff y rhwydwaith ei ddiweddaru'n flynyddol.

**Dylid nodi y darperir cludiant yn unol â Pholisi Cludiant y Cyngor yn unig. Pan fo disgybl yn mynd i ysgol heblaw'r ysgol addas agosaf a gydnabyddir gan Gyngor Sir y Fflint, a hynny o ganlyniad i ddewis y rhieni, dylid deall bod y rhieni'n derbyn cyfrifoldeb llawn am gostau a threfniadau cludiant.**

## 5. BRAWD NEU CHWAER

Diffinnir brawd neu chwaer fel brawd neu chwaer gyfan, hanner brawd neu chwaer, llys frawd neu chwaer, neu frawd neu chwaer maeth neu wedi'u mabwysiadu, sy'n byw gyda'i gilydd mewn un aelwyd yn yr un cyfeiriad, pan fo'r brawd neu chwaer hŷn o oedran ysgol statudol ac yn dal i fod wedi'u cofrestru yn y dewis o ysgol pan fydd y brawd neu chwaer iau yn gymwys i fynychu'r ysgol honno.

## 6. PLANT O ENEDIGAETH LUOSOG

Mae Cod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru'n nodi na all dosbarthiadau babanod gynnwys mwy na 30 o ddisgyblion gydag un athro neu athrawes, ond mae'r cod yn cyfrif genedigaethau lluosog yn eithriad i hyn, a gellir eu derbyn y tu hwnt i'r nifer derbyn. Pan fydd un brawd neu chwaer o enedigaeth luosog yn cael y lle olaf, bydd y brodyr neu'r chwiorydd sy'n weddill yn cael eu derbyn fel eithriadau.

## 14. Newid Ysgol o fewn Sir y Fflint yn ystod y flwyddyn

Mae ysgolion yn Sir y Fflint wedi cytuno ar brotocol gyda'r Awdurdod Lleol ar gyfer symud o un ysgol enwebedig i un arall ar adeg heblaw'r cyfnod pontio arferol (Derbyn a Blwyddyn 7).

Dylai rhiant sydd eisiau i'w plentyn symud ysgol siarad â Phennaeth ysgol bresennol y plentyn i gychwyn i drafod y rhesymau am fod eisiau symud. Os yw'r rhieni neu'r disgybl yn cael problemau yn yr ysgol bresennol, fe'u hanogir i gymryd **pob cam rhesymol** i ddatrys y mater gyda'r ysgol yn gyntaf, ac yna i geisio cyngor gan y Tîm Derbyn os bydd angen, cyn gwneud cais i symud.

Cynghorir rhieni'n gryf i beidio â symud disgyblion yn ystod y flwyddyn academaidd, oni bai eu bod yn symud tŷ, er mwyn osgoi amharu ar eu cyrsiau ysgol.

**Nid** yw'r Awdurdod Lleol yn annog symud plant o un ysgol i'r llall, a gall newid ysgol yn ystod y tymor amharu'n ddifrifol ar barhad addysg plentyn.

Yn dilyn y drafodaeth hon, os bydd y rhiant yn dal i fod eisiau parhau â'r broses, rhaid i'r rhiant lenwi cais i symud.

Yn achos disgyblion sy'n symud i'r ardal ar adegau y tu allan i'r cylch derbyn arferol (mis Medi bob blwyddyn), bydd yr Awdurdod Lleol yn gwneud eu gorau i fodloni dewisiadau'r rhiant cyn belled ag y bo modd.

Os yw'r grŵp blwyddyn yn yr ysgol a geisir eisoes wedi cyrraedd ei nifer derbyn, efallai y gwrthodir y cais, a bydd y rhieni'n cael cynnig lle mewn ysgol arall. Mewn achosion o'r fath, gall y rhiant dderbyn y lleoliad arall neu roi gwybod eu bod am apelio.

Yn y rhan fwyaf o achosion, caiff y rhieni wybod am y penderfyniad o fewn 15 diwrnod ysgol. Caiff ceisiadau eu prosesu yn nhrefn dyddiad eu cyflwyno, ac ni allwn gyflymu unrhyw geisiadau.

**O ran ceisiadau i symud ysgol lle nad yw'r disgybl yn symud i fyw, ac mae'r plentyn eisoes ar gofrestr mewn ysgol yn Sir y Fflint, mae'r Awdurdod Lleol yn cadw'r hawl i drefnu bod y plentyn yn dechrau yn yr ysgol newydd ar ddechrau'r hanner tymor nesaf er mwyn osgoi tarfu ar addysg y plentyn dan sylw a'r plant eraill.**

**Blwyddyn 10 ac 11**

Mae'r Awdurdod Lleol yn barod i ystyried ceisiadau i symud o un ysgol i'r llall y tu allan i'r cyfnodau derbyn arferol pan fo hynny er budd pennaf y plentyn. Fodd bynnag, ystyrir Blynyddoedd 10 ac 11 yn yr ysgol uwchradd yn 'gwrs 2 flynedd'. O ganlyniad, mae ceisiadau i symud i ysgol arall yn Sir y Fflint ar ôl Blwyddyn 9 yn aml yn cael effaith negyddol ar gynnydd academaidd disgyblion, ac efallai na fydd yr Awdurdod Lleol yn ystyried ei bod yn briodol iddynt symud.

## 15. <u>Ymddygiad Heriol a Phlant Anodd eu Lleoli</u>

Yn unol â'r Cod Derbyn i Ysgolion (Cymru), ni chaiff Awdurdodau Derbyn wrthod mynediad ar sail ymddygiad plentyn, ymddygiad heriol ymddangosiadol, nac anghenion ychwanegol, ac eithrio pan fo plentyn wedi cael ei wahardd yn barhaol o ddwy neu fwy o ysgolion o fewn y ddwy flynedd flaenorol.

Mae gofyn i'r Awdurdod Lleol fod wedi gwneud trefniadau i sicrhau bod plant sydd **heb eu lleoli** ac sy'n dod o fewn y meini prawf anodd eu lleoli yn cael cynnig lle mewn ysgol addas cyn gynted ag y bo modd, a'u bod yn cael eu trin yn deg ac yn gyson. Mae gweithdrefnau'r Awdurdod Lleol ar gyfer nodi, cefnogi a sicrhau lle mewn ysgol ar gyfer dysgwyr anodd eu lleol wedi'u nodi ar wahân, ac yn gweithredu'n unol â chanllawiau statudol.

## 16. <u>Plant pobl sydd yn Lluoedd Arfog y DU a phlant Gweision eraill y Goron (gan gynnwys diplomyddion)</u>

Yn unol â gofynion Cod Derbyn i Ysgolion Cymru (2013), mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod ei ddyletswydd i sicrhau bod plant pobl sydd yn Lluoedd Arfog y DU yn cael eu trin yn deg ac nad ydynt yn wynebu unrhyw anfantais yn ystod y broses dderbyn.

Yn y prif gylch derbyn (Uwchradd, Derbyn a Meithrin), gellir dyrannu lle mewn ysgol i blant pobl sydd yn Lluoedd Arfog y DU a phlant Gweision eraill y Goron cyn y flwyddyn ysgol sydd i ddod, os yw'r cais wedi'i gefnogi gan lythyr swyddogol gan y Weinyddiaeth Amddiffyn neu'r Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu yn cadarnhau dyddiad dychwelyd neu leoli.

Bydd ceisiadau gan deuluoedd y Lluoedd Arfog yn cael eu hystyried yn unol â'r Cod, gan gynnwys derbyn ardal lleoli uned fel tystiolaeth o fan preswyl, cyn belled â bod cadarnhad priodol o'r lleoliad wedi cael ei ddarparu, hyd yn oed pan nad oes cyfeiriad parhaol wedi cael ei sefydlu yn yr ardal honno eto. Bydd plant pobl sydd yn y Lluoedd Arfog yn cael eu derbyn yn unol â'r meini prawf cyhoeddedig ar gyfer gor-alw.

Gellir trin plant pobl sydd yn Lluoedd Arfog y DU a dderbynnir i ysgol y tu allan i'r cylch derbyn arferol fel disgyblion eithriedig er dibenion y terfyn maint dosbarth babanod statudol.

## 17. Y Weithdrefn Apelio

Os na all yr Awdurdod gydymffurfio â dewis y rhiant, bydd y rhiant yn cael gwybod y rheswm am hynny yn ysgrifenedig, mewn neges e-bost, ac yn cael gwybod am leoedd sydd ar gael mewn ysgol arall. Yna, gall y rhiant dderbyn y lleoliad arall a gallant roi gwybod eu bod am apelio. Pan gyhoeddir bod lle wedi'i wrthod, cynigir hawl i'r rhiant apelio, a bydd y ffurflen apelio briodol yn cael ei hanfon atynt ynghyd â chanllawiau ar sut i apelio a'r broses apelio.

Rhaid cyflwyno apeliadau yn defnyddio'r ffurflen a gyhoeddir gan y Tîm Derbyn, a'i dychwelyd i'r Tîm dros e-bost - admissions@flintshire.gov.uk

Caiff apeliadau eu clywed o fewn **30 diwrnod ysgol** i'r ffurflen apelio ddod i law'r Tîm Derbyn, neu, ar gyfer apeliadau bloc a gyflwynir yn ystod y Prif Gylch Derbyn, o fewn 30 diwrnod ysgol i ddyddiad cau derbyn ffurflenni apelio (mae amserlen yn dangos dyddiadau apeliadau bloc i'w gweld yma Amserlen ar gyfer Apeliadau Derbyniadau Ysgol 2027)

Ar gyfer apeliadau a gyflwynir yn ystod gwyliau haf yr ysgol, mae amserlen o 30 diwrnod gwaith yn berthnasol.

Diffinnir diwrnod 1 fel y diwrnod ysgol cyntaf ar ôl i'r ffurflen apelio ddod i law, neu, ar gyfer apeliadau bloc, y diwrnod ysgol cyntaf ar ôl y dyddiad cau. Gwneir pob ymdrech i glywed apeliadau'n brydlon, ac mae'r Awdurdod Lleol yn ceisio trefnu gwrandawiadau apêl tua unwaith bob pedair wythnos yn ystod y tymor.

Gall rhieni ddod â ffrind neu eiriolwr gyda nhw os dymunant wneud hynny. Bydd y Panel Apêl Annibynnol yn ystyried pob achos yn deg ac yn ddiduedd, a bydd yn hysbysu'r rhiant am ei benderfyniad yn ysgrifenedig. Mae penderfyniad y panel yn derfynol ac yn rhwymol ar gyfer yr holl bartïon.

**Nid yw'r hawl i apelio yn berthnasol yn y cyfnod meithrin.**

### 17.1 Canlyniadau Apeliadau ar gyfer Mynediad 25-26 ym mis Medi 2026

Derbyn

| Ysgol | Apeliadau ar gyfer Ceisiadau Ar Amser | Apeliadau Ychwanegol/Ail Gylch | Llwyddiannus |
|---|---|---|---|
| Ysgol Parc y Llan, Treuddyn | 2 (2x ICSA) | | 2 |
| Ysgol Gynradd Sealand, Sealand | | 2 (2x ICSA) | 0 |
| **CYFANSWM** | 2 | 2 | 13 |

Uwchradd

| Ysgol | Apeliadau ar gyfer Ceisiadau Ar Amser | Apeliadau Ychwanegol/Ail Gylch | Llwyddiannus |
|---|---|---|---|
| Ysgol Uwchradd Penarlâg | 21 | 2 | 16 |
| Ysgol Uwchradd Argoed | 14 | | |
| Castell Alun | | 4 | 2 |
| CYFANSWM | | | |